COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl2421

Amseru: Arferol

Teitl: Arian ar gyfer Ymgyrch Deepdale

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:

Mae Trais yn Erbyn Menywod a Merched yn bwnc sy'n fwyfwy cyffredin yn y newyddion ac ymysg y cyhoedd cyffredinol. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn mynd i'r afael â llawer o'r materion hyn drwy ddefnyddio ffrydiau gwaith presennol a thrwy greu rhaglenni gwaith newydd yn y gofod Trais yn Erbyn Menywod a Merched.

Yn gynwysedig yn y trafodaethau cynyddol o gwmpas Trais yn Erbyn Menywod a Merched y mae adroddiadau am sbeicio diodydd a sbeicio drwy nodwydd wedi dod yn bryder cenedlaethol. Mae'r Heddlu wedi gweld pryder cynyddol ymysg y cyhoedd a rhanddeiliaid, gan gynnwys nifer o gysylltiadau â'r economi nos a darparwyr addysg yn yr ardal heddlu sydd wedi mynegi eu pryderon ynghylch sbeicio diodydd a sbeicio drwy nodwydd. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi derbyn sawl adroddiad sy'n destun ymchwiliad ar hyn o bryd.

Cysylltodd y Cydlynydd Trais Difrifol a Throseddu Trefnedig a'r Cydlynydd Partneriaeth â'r CHTh yn ddiweddar, gyda golwg ar weithio gyda'r timoedd plismona bro er mwyn cyflwyno offer arbenigol ar gyfer canfod cyffur mewn diodydd ar draws y 4 ardal blismona leol. Bydd adnoddau'n cael eu defnyddio yn ardaloedd yr heddlu lle mae'r bygythiad, perygl a niwed mwyaf yn ystadegol er mwyn sicrhau ein bod ni'n diogelu'r bobl hynny sydd fwyaf agored i niwed.

Cynigir bod CHTh yn cefnogi cyflwyno Ymgyrch Deepdale drwy gyfrannu £2996 o'r arian a wnaed drwy werthu eiddo y daethpwyd o hyd iddo.

Argymhelliad:
Cyfrannu £2996 tuag at y prosiect o'r gyllideb Gwerthu Eiddo y Daethpwyd o Hyd Iddo.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 25.11.2021**